

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Clinig 1192 Laser and Beauty

Dyddiad yr arolygiad: 22 Awst 2022

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN digidol 978-1-80391-963-8

© Hawlfraint y Goron 2022

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
  - Ansawdd profiad y claf
  - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
  - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ar 1192 Laser and Beauty ar 22 Awst 2022

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i llunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Canfuom fod y gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion yn y clinig. Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn darparu lefelau priodol o breifatrwydd ac urddas i gleifion. Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl, am y triniaethau sydd ar gael, i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu diweddarau a'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Roedd y salon yn cael ei gadw'n lân, yn daclus ac yn rhydd rhag annibendod.
- Mae'r lleoliad yn gwbl hygyrch i'r cleifion ag anawsterau symudedd

### Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Canfuom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r offer golau pwls dwys/laser a sicrhau eu diogelwch parhaus. Roedd trefniadau da ar gyfer atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Dylai rheolwr y practis sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol.

### Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd gan reolwr y practis a phob gweithredwr laser arall y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i gyflawni triniaeth ddiogel i gleifion. Roedd ystod eang o bolisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisi a gweithdrefn gwynion briodol ar waith

Darperir y manylion am y pryderon i ddiogelwch y cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a ganfuom

### Ansawdd profiad y claf

#### Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

*“Mae'r staff yn fendigedig yn gwneud i chi deimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio.”*

*“Gwasanaeth ffantastig”*

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom gynnal adolygiad o gofnodion cleifion. Adolygwyd pump ac roedd pob un o'r rhain yn gyflawn ac wedi eu diweddarau. Rhaid i gleifion gwblhau holiadur hanes meddygol cynhwysfawr cyn derbyn eu triniaeth gychwynnol, sydd wedyn yn cael ei lofnodi a'i gydlofnodi gan y clinigwr. Gofynnir i gleifion hefyd am unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol cyn unrhyw driniaethau dilynol.

#### Urddas a pharch

Cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth hefyd, er mwyn sicrhau bod y trafodaethau'n breifat ac yn gyfrinachol. Gwelsom dystiolaeth y gellir cloi pob ystafell driniaeth, a dywedodd rheolwr y practis wrthym y gellir cymryd galwadau ffôn mewn ystafelloedd preifat er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion.

Dywedwyd wrthym y gall hebryngwr ddod gyda chleifion ar gyfer eu hymgyngoriad ac yn ystod triniaethau.

#### Cyfathrebu'n effeithiol

Darparwyd canllaw i gleifion a datganiad o ddiben i ni gan y rheolwr cofrestredig. Canfuom fod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr wybodaeth hanfodol sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Fodd bynnag, nid oedd copïau o'r naill ddogfen na'r llall ar gael yn yr

ystafell driniaeth. Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod copïau o bob dogfen ar gael yn yr ystafell driniaeth i gleifion eu gweld.

### **Gwybodaeth a chydsyniad cleifion**

Cawsom ein sicrhau bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Mae hyn oherwydd bod y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb, sy'n cynnwys digon o wybodaeth am risgiau, buddion a chanlyniadau tebygol y driniaeth a ddymunir.

Mae'n ofynnol i gleifion gydsynio cyn pob triniaeth. Roedd y ffurflen gydsynio yn cynnwys gwybodaeth addas, a gwelsom dystiolaeth o ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y rheolwr cofrestredig.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion o'r gofrestr triniaethau cleifion. Gwelsom dystiolaeth o gofnodion a oedd yn gyfredol ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd pob un wedi'u dyddio a'u llofnodi ac roeddent yn cynnwys manylion canlyniadau triniaeth ac unrhyw effeithiau andwyol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na chaniateir i gleifion dderbyn triniaeth heb yn gyntaf gael prawf patsh er mwyn eu diogelwch.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar y llawr daear ac mae'n gwbl hygyrch i bobl ag anawsterau symudedd. Mae gan y clinig doiled i gwsmeriaid anabl ar y safle hefyd.

Dim ond yn Saesneg yr oedd y dogfennau ar gael yn bennaf. Gwnaethom argymhell bod rheolwr y practis yn sicrhau bod gwybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Canfuom fod gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn gwyno briodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Gall adborth gael ei ddarparu gan gleifion trwy gyfryngau cymdeithasol ac adolygiadau ar-lein. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd fod arolygon adborth yn cael eu hanfon at bob claf ar ôl eu triniaeth.



# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y rheolwr cofrestredig a'r bobl sy'n ymweld â'r safle.

Roedd profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal ar yr holl beiriannau perthnasol o fewn amserlen briodol. Gwelsom fod diffoddwyr tân wedi cael eu hadolygu o fewn y deuddeg mis diwethaf a bod gwiriadau gwifrau wedi'u cynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac roedd un arall wedi'i archebu. Roedd gan y lleoliad hefyd asesiad risg diogelwch tân cyfredol ar waith.

Roedd pecyn cymorth cyntaf addas ar gael yn y clinig. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cymorth cyntaf wedi'i gwblhau ar gyfer swyddog cymorth cyntaf dynodedig y salon, a dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd fod swyddogion cymorth cyntaf allanol eraill ar y safle yn ystod oriau agor y salon. Rydym yn argymhell bod holl staff y salon yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwnaethom nodi bod pob ardal o'r gwasanaeth i'w gweld yn lân ac yn glir rhag annibendod.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ystod o drefniadau rheoli heintiau addas sydd ar waith yn y clinig. Roedd hyn yn cynnwys mesurau hylendid dwylo priodol a glanhau offer laser ac ystafelloedd triniaeth rhwng ymweliadau cleifion. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod amserlenni glanhau ar waith ar gyfer y lleoliad.

Roedd bin gwaredu offer miniog yn cael ei storio'n briodol yn y clinig ac roedd trefniadau gwastraff clinigol ar waith drwy gcontract gyda darparwr allanol.

## Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Cadarnhaodd rheolwr y practis na all unrhyw un dan 18 oed gael triniaethau laser yn y clinig. Canfuom fod polisi diogelu oedolion ar waith i'w ddilyn pe bai pryder ynghylch diogelu. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer tîm diogelu'r awdurdod lleol. Roedd yr holl staff wedi dilyn hyfforddiant diogelu priodol.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Canfuom fod gweithdrefnau priodol ar waith i amddiffyn diogelwch cleifion wrth ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys/laser. Mae hyn oherwydd y canlynol:

- Roedd contract ar waith gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau a oedd wedi rhoi cyngor a chymorth ar ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys/laser yn ddiogel.
- Roedd y cynghorydd amddiffyn rhag laserau wedi adolygu'r rheolau lleol o fewn y 12 mis diwethaf er mwyn cadarnhau eu haddasrwydd parhaus
- Mae'r rheolwr cofrestredig wedi llofnodi'r rheolau lleol i ddangos ei hymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys/laser yn ddiogel
- Roedd gan y peiriant golau pwls dwys/laser wasanaeth blynyddol cyfoes
- Roedd amddiffyniad llygaid addas ar gael i bob claf a'r rheolwr cofrestredig
- Roedd angen allwedd i ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys/laser i helpu atal mynediad heb awdurdod.

### **Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol**

Cawsom ein sicrhau bod yr holl staff yn ddefnyddwyr cymwys o'r peiriant golau pwls dwys/laser. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff sy'n darparu triniaethau laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a bod pob un ohonynt yn cael hyfforddiant diweddar bob chwarter.

Gwnaethom adolygu'r protocolau triniaeth a chanfod eu bod yn gyfredol ac wedi'u hadolygu gan weithiwr proffesiynol cofrestredig y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Roedd clo wedi'i osod yn yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau urddas a diogelwch cleifion yn ystod triniaethau. Roedd arwyddion priodol wedi'u harddangos ar ddrws yr ystafell driniaeth i rybuddio pobl i beidio â mynd i mewn pan fo'r peiriant golau pwls dwys/laser yn cael ei ddefnyddio.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Dangosodd y rheolwr cofrestredig wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r triniaethau a ddarperir, ac roedd yn frwdfrydig am ei faes ymarfer. Disgrifiodd hefyd bwysigrwydd arsylwadau ôl-driniaeth a phrosesau dilynol gyda chleifion i helpu i ddarparu gofal unigol gwell drwy gydol cwrs triniaeth.

### **Rheoli cofnodion**

Gwelsom dystiolaeth bod system addas ar waith i sicrhau diogelwch a chyfrinachedd cofnodion cleifion. Roedd y sampl o gofnodion a adolygwyd yn glir ac yn gyson ac roedd cofrestr gynhwysfawr o driniaethau cleifion hefyd yn cael ei chynnal yn briodol.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## **Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Mae 1192 Laser and Beauty yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Heblaw am y rheolwr cofrestredig, mae tri gweithredwr golau pwls dwys/laser arall yn y clinig.

Canfuom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiau ar waith a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau'n flynyddol. Gwnaethom adolygu sampl o'r rhain a chanfod eu bod yn diwallu anghenion y gwasanaeth yn gyffredinol.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfoes ar waith fel sy'n ofynnol.

## **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Disgrifiodd rheolwr y practis eu proses gwyno a chanfuom fod y weithdrefn yn briodol, a bod AGIC wedi'i rhestru fel pwynt cyswllt ychwanegol.

## **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol**

Cawsom ein sicrhau bod gan bob un o'r gweithredwyr golau pwls dwys/laser yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

## **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Disgrifiodd rheolwr y practis y broses recriwtio a fyddai'n cael ei dilyn cyn i unrhyw aelod newydd o staff ymuno â'r clinig. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau priodol cyn cyflogaeth, gan gynnwys proses ymgeisio a chyfweld a chyflwyno tystlythyrau digonol.

Gwelsom dystiolaeth fod gan bob aelod o staff dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac uwch gyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth:

## Dyddiadau'r arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<u>Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol</u>				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:



Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd o'r gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Donnalee Alford**

**Swydd: Cyfarwyddwr**

**Dyddiad: 18/10/22**